Cyfarfod arbennig o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 y.h. ar nos Iau 27ain o Fehefin 2019

Presennol: *J H Owens (Cad), E Evans, R F Owen, M T Smithurst, W Hughes,*

Ymddiheuriadau: *C Davies, C G Topps*

1. Cyfrifon 2018-19

Darllenwyd adroddiad yr Archwilydd Mewnol a nodwyd ei gynnwys.

Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan WH fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn cymeradwyo'r cyfrifon yn dilyn yr Archwiliad Mewnol. Clerc a'r Cadeirydd wedi arwyddo'r dogfennau perthnasol. Y dogfennau i'w cyflwyno i BDO ar gyfer Archwiliad Allanol.

2. Hysbysfwrdd

JHO yn adrodd fod Pwyllgor y Neuadd wedi gwneud cais fod y Cyngor Cymuned yn prynu un hysbysfwrdd mawr, o faint a fyddai'n arddangos 12 tudalen A4, i'w rannu rhwng y Cyngor Cymuned a Phwyllgor y Neuadd. Amcangyfrifir y bydd y gost yn £1,000.00. Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan WH fod y Cyngor Cymuned yn prynu'r hysbysfwrdd. Cynigwyd gan EE ac eilwyd gan AJ y dylid trosgwyddo'r cyllid ychwanegol o £500.00 o'r arian wrth gefn i'r gyllideb gweinyddol cyffredinol.